

Hawdd ei Ddeall



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Sut rydyn ni'n darparu gwasanaethau awtistiaeth yng Nghymru



Mae'r ddogfen yma wedi cael ei hysgrifennu gan Lywodraeth Cymru.
Mae'n fersiwn hawdd ei ddeall o '**Cod Ymarfer ar Ddarpariaeth
Gwasanaethau Awtistiaeth**'.

Gorffennaf 2021

Sut i ddefnyddio'r ddogfen yma



Dogfen hawdd ei deall yw hon. Ond efallai y byddwch chi dal angen help i'w darllen hi. Gofynnwch i rywun rydych chi'n ei adnabod i'ch helpu.



Efallai bydd geiriau mewn **ysgrifennu glas trwm** yn anodd i'w deall. Gallwch edrych i weld beth mae'r geiriau mewn glas yn meddwl ar **dudalen 42**.



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Pan fydd y ddogfen yn dweud ni, mae hyn yn meddwl Llywodraeth Cymru. I gael mwy o wybodaeth cysylltwch â:

Cyfeiriad: Autism Policy Team
Welsh Government
Cathays Park
Cardiff
CF10 3NQ

Gwefan: www.llyw.cymru


E-mail: Niwroamrywiaeth@llyw.cymru



Cafodd y ddogfen hon ei gwneud yn hawdd ei deall gan **Hawdd ei Ddeall Cymru** gan ddefnyddio **Photosymbols**. I ddweud wrthyn ni beth rydych chi'n feddwl am y fersiwn hawdd ei ddeall hwn, [cliciwch yma](#).

Cyflwyniad	4
1. Asesu a diagnosis	8
2. Sut mae pobl yn cael cefnogaeth iechyd a gofal cymdeithasol	14
3. Codi ymwybyddiaeth a hyfforddiant	27
4. Cynllunio a gwirio gwasanaethau a chynnwys pobl	35
Geiriau anodd	42

Cyflwyniad



Rydyn ni eisiau gwneud gwasanaethau awtistiaeth yn well yng Nghymru.



Rydyn ni wedi ysgrifennu'r **Cod Ymarfer** yma i ddweud sut y dylai gwasanaethau awtistiaeth weithio. A pa fath o wasanaethau ddylai fod ar gael.



Mae **Cod Ymarfer** yn rhoi rheolau a chynghor am y ffyrdd gorau o weithio. Mae'n dweud sut i ddilyn deddfau a chynlluniau. Fe fyddwn ni yn ei alw yn **Cod** yn fyr.



Rhaid i bob awdurdod lleol, byrddau iechyd lleol ac **Ymddiriedolaethau GIG** ddilyn y **Cod Ymarfer** yma yn ôl y gyfraith. Mae'n dweud beth mae'n **rhaid** iddyn nhw ei wneud i helpu pobl gydag awtistiaeth.



Ymddiriedolaethau GIG ydy cyrff fel Gwasanaethau Ambiwylans Cymru ac Iechyd Cyhoeddus Cymru.

Mae'r **Cod** yma ar gyfer:



- Pobl awtistig – iddyn nhw gael gwybod pa wasanaethau dylen nhw fod yn eu cael.



- Darparwyr gwasanaethau awtistiaeth.



- Yr holl staff sydd yn cefnogi pobl awtistig a'u teuluoedd ac/neu ofalwyr. Fel staff iechyd a gofal cymdeithasol, athrawon a'r heddlu.



- Pobl sydd yn cynllunio, trefnu a thalu am wasanaethau awtistiaeth.



- Pawb, beth bynnag ydy eu hoedran nhw.



Fe fydd y **Cod** yma yn helpu awdurdodau lleol, byrddau iechyd ac **ymddiriedolaethau GIG** i ddeall beth mae gwahanol ddeddfau yn ddweud mae'n **rhaid** iddyn nhw ei wneud i bobl awtistig. Mae'r deddfau yma yn cynnwys:

- **Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014**
- **Deddf Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006**
- **Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018**
- **Deddf Iechyd Meddwl 1997**
- **Mesur Iechyd Meddwl Cymru 2010**
- **Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015**
- **Deddf Cydraddoldeb 2010**
- **Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn.**



Mae'r **Cod** wedi cael ei rannu yn 4 rhan sydd yn ddweud sut y dylai gwasanaethau awtistiaeth gael eu trefnu.



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Mae gan Lywodraeth Cymru y pŵer i ddweud wrth awdurdodau lleol, byrddau iechyd lleol ac **ymddiriedolaethau GIG** beth i'w wneud, i wneud yn siŵr eu bod nhw'n dilyn y **Cod** yma.



Rhaid i awdurdodau lleol, byrddau iechyd lleol ac **ymddiriedolaethau GIG** ysgrifennu adroddiad bob blwyddyn i Lywodraeth Cymru. Fe fydd yr adroddiad yma yn dweud sut maen nhw'n gwneud yn siŵr eu bod nhw'n dilyn y **Cod** yma.



Fe fydd y **Cod** yn defnyddio “**Cyflwr Sbectrwm Awtistig (CSA)**” fel diffiniad o awtistiaeth.



Fe fydd y **Cod** yn defnyddio “**pobl awtistig**” yn lle “pobl gydag awtistiaeth”. Mae pobl wedi dweud wrthyn ni bod yn well ganddyn nhw hyn.

1. Asesu a diagnosis



Mae'r rhan yma yn dweud beth mae pobl sydd efallai yn awtistig yn gallu ei gael:

- **Asesiad** awtistiaeth
- **diagnosis**
- cefnogaeth pan maen nhw'n mynd drwy **asesiad**



Asesiad ydy set o gwestiynau a phroffion sydd yn gallu cael eu gwneud i weld os ydy person efallai yn awtistig, neu i weld os ydyn nhw angen gofal a chymorth.

Diagnosis ydy pan mae gweithiwr iechyd proffesiynol yn edrych ar iechyd ac ymddygiad person i benderfynu os oes ganddyn nhw gyflwr neu beidio.

Cael asesiad a diagnosis



Fe ddylai staff iechyd a gofal cymdeithasol wybod beth ydy arwyddion awtistiaeth. Fe ddylen nhw gael hyfforddiant ar hyn a gwybod sut i gyfeirio pobl am **asesiad**.



Fe ddylen nhw roi gwybodaeth i'r person a'u teulu neu gofalwr yn dweud beth fydd yn digwydd nesaf.



Rhaid cael ffordd o weithio cytun ar draws Cymru. Fe ddylai **asesiadau** awtistiaeth fod yr un fath lle bynnag rydych chi yng Nghymru.



Rhaid i bobl allu cyfeirio eu hunain neu'r person maen nhw'n gofalu amdanyn nhw. Rhaid i staff iechyd a gofal cymdeithasol wrando ar eu barn.



Rhaid cynnig cefnogaeth i bobl pan maen nhw'n aros am **asesiad**. Os ydy penderfyniad yn cael ei wneud **nad** ydych chi angen **asesiad**, mae'n rhaid esbonio'r rhesymau pam yn glir i chi.



Rhaid i wasanaethau plant ac oedolion weithio ochr yn ochr gyda'i gilydd. Fe ddylai **asesiadau** i blant ac oedolion ddigwydd mewn ffordd debyg.



Rhaid i bobl mewn lleoedd fel carchar allu cael **asesiad** awtistiaeth a chymorth, os ydyn nhw ei angen.



Fe ddylai **asesiadau** gael eu gwneud o fewn amser penodol. Ddylech chi ddim gorfod aros yn rhy hir.



Fe ddylai canlyniadau eich **asesiad** gael ei esbonio yn glir i chi yn bersonol.



Os ydych yn cael **diagnosis** o awtistiaeth fe ddylech chi gael cynnig apwyntiad dilyn i fyny o fewn 6 wythnos. Fe ddylen nhw ddweud wrthyh chi hefyd sut i gael rhagor o gefnogaeth.

Dyletswyddau ar gyfer asesu a diagnosis

Rhaid i awdurdodau lleol:

- Gwneud yn siŵr bod pobl gydag awtistiaeth yn gwybod bod ganddyn nhw hawl i gael **asesiad anghenion**. Ac mae gan eu gofalwyr hawl i gael **asesiad gofalwr**.



Asesiad anghenion ydy pan mae staff iechyd a gofal cymdeithasol yn darganfod beth ydy eich anghenion a sut maen nhw'n gallu eich cefnogi.

Asesiad gofalwr ydy pan mae staff iechyd a gofal cymdeithasol yn gweld beth ydy eich anghenion fel gofalwr a sut maen nhw'n gallu eu cefnogi.

- Gwneud yn siŵr bod pobl yn gallu cael **asesiad**.



Rhaid i fyrrddau iechyd lleol ac Ymddiriedolaethau GIG:



- Rhoi gwasanaethau **asesu** a **diagnosis** i bobl. A dilyn y canllaw ar gyfer y ffyrdd gorau o wneud hyn.

- Gwneud yn siŵr bod staff iechyd fel meddygon teulu yn gwybod sut i gyfeirio pobl am **asesiad** a **diagnosis**.



- Gwneud yn siŵr bod pobl ddim yn gorfod aros yn rhy hir am **asesiad**.

- Rhoi **asesiad** arall os oes angen i bobl sydd wedi cael **diagnosis** o awtistiaeth i weld pa gefnogaeth maen nhw ei angen. Rhaid i bobl gytuno â hyn i ddechrau.



- Cyfeirio pobl sydd ddim wedi cael **diagnosis** o awtistiaeth i wasanaethau gofal cymdeithasol am **asesiad**, os ydyn nhw angen gofal a chefnogaeth. Rhaid i bobl gytuno â hyn i ddechrau.



- Gwneud yn siŵr bod pobl awtistig yn gallu cael cefnogaeth yn hawdd ar gyfer cyflyrau eraill, Er enghraifft problemau iechyd meddwl neu anabledau dysgu.

- Gwneud yn siŵr bod pobl mewn lleoedd fel y carchar yn gallu cael **asesiad** a **diagnosis** am awtistiaeth os oes angen. Gwneud yn siŵr bod staff yn y lleoedd yma yn deall pan fydd gan rywun awtistiaeth efallai.

Rhaid i fyrddau iechyd lleol, ymddiriedolaethau GIG ac awdurdodau lleol weithio gyda'i gilydd i:



- Ateb anghenion pobl gydag awtistiaeth sydd ag anghenion cefnogi ychwanegol. Er enghraifft pobl sydd ag awtistiaeth a phroblemau iechyd meddwl ac anabledd dysgu.



- Gweithio gyda'i gilydd a rhannu gwybodaeth am anghenion plant ac oedolion gydag awtistiaeth.



- Rhannu gwybodaeth am anghenion pobl sydd **ddim** yn cael **diagnosis** o awtistiaeth, os ydyn nhw angen gofal a chefnogaeth.

- Gwneud yn siŵr bod pobl mewn lleoedd fel y carchar yn gallu cael **asesiadau** a chefnogaeth gofal cymdeithasol.



- Rhoi rhywun yng ngofal trefnu a gweld sut mae pobl yn cael **asesiadau** a **diagnosis**.

2. Sut mae pobl yn cael cefnogaeth iechyd a gofal cymdeithasol

Mae'r rhan yma am:



- Sut mae pobl yn cael gwahanol wasanaethau cefnogi. Fel gwasanaethau iechyd, gofal cymdeithasol ac iechyd meddwl.



- Sut y dylai awdurdodau lleol, byrddau iechyd lleol ac **ymddiriedolaethau GIG** ateb anghenion pobl awtistig.

Cael gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol



Fe ddylai pobl allu cael gwybodaeth sydd yn eu helpu i gael help a chynghor. Fe ddylen nhw gael hyn mewn ffordd sydd yn gwneud synnwyr iddyn nhw.



Fe ddylai gwasanaethau weithio gyda'i gilydd fel bod pobl yn cael y gefnogaeth maen nhw ei angen yn y ffordd orau.



Rhaid i bobl deimlo eu bod yn cael llais cyfartal yn eu gofal a'u cymorth. Mae pobl awtistig yn gallu gofyn i rhywun eu cefnogi nhw yn ystod eu **hasesiad** anghenion a phob apwyntiad.



Maen nhw'n gallu gofyn i aelod o'r teulu, ffrind neu **eiriolydd**. Rhaid i'ch awdurdod lleol eich helpu i gael **eiriolydd** os ydych chi eisiau un.



Eiriolydd ydy rhywun sydd yn gallu eich helpu chi i siarad dros eich hun a gwneud yn siŵr bod eich barn yn cael ei glywed.



Rhaid i awdurdodau lleol ddarparu gwahanol wasanaethau sydd yn gallu stopio problemau i ddigwydd neu fynd yn waeth. Mae'r gwasanaethau yma yn cael eu galw yn **wasanaethau ataliol**.

Cymhwystra ac IQ



Cymhwystra ydy pan mae rhestr o bethau mae angen i chi eu cael i allu cael cefnogaeth. Rydych chi'n **gymwys** i gael cefnogaeth os oes gennych chi rywbeth sydd ar y rhestr.

IQ ydy sgôr sydd yn dweud pa mor ddeallus neu glyfar ydy rhywun.



Rhaid i **gymhwystra** fod wedi'i seilio ar:

- Eich sefyllfa.
- Beth ydy eich anghenion a'r pethau rydych chi eisiau.
- Beth sydd yn gallu eich stopio rhag cael beth rydych chi eisiau a'i angen.
- Unrhyw risgiau i chi eich hun neu i eraill.
- Beth ydy eich cryfderau a'ch galluoedd.





Rhaid i staff sydd yn gwneud **asesiadau** anghenion ddeall sut mae awtistiaeth yn gallu effeithio ar fywyd person.




Does gan **gymhwysra** ddim byd i'w wneud gyda'ch **IQ**. Ni ddylai neb feddwl am **IQ** wrth benderfynu os ydych chi angen **asesiad**.

Asesiadau ar gyfer gofal a chefnogaeth gan eich awdurdod lleol



Os oes gennych chi anghenion gofal a chefnogaeth, mae gennych chi hawl i gael **asesiad** o'r anghenion hynny.



Fe ddylai'r **asesiad** ein helpu ni i ddeall eich anghenion yn well. A phenderfynu ar y ffordd orau i'ch cefnogi. Mae hyn yn cael ei wneud drwy wneud cynllun.



Weithiau pan mae gan bobl lawer o anghenion, mae'n cymryd mwy o waith i wneud **asesiad** llawn a chywir. Ond ddylai hi ddim cymryd mwy o amser i gael cefnogaeth oherwydd bod gennych chi lawer o anghenion.



Fe ddylech chi gael gwybod faint o amser fydd yr **asesiad** yn gymryd a beth sydd yn digwydd.



Mae **asesiadau gofalwr** yn gallu digwydd ar yr un amser ag **asesiadau anghenion** os ydy hyn yn eich helpu chi a'ch gofalwr.



Rhaid i staff gofal cymdeithasol ddeall anghenion pobl awtistig. Er mwyn iddyn nhw allu rhoi'r cyngor a'r gefnogaeth orau i rieni a gofalwyr.



Fe ddylen nhw ofyn i chi am eich anghenion cyfathrebu ac iaith. Er enghraifft, efallai bod yn well gennych chi siarad Cymraeg. Neu gael gwybodaeth wedi ei ysgrifennu yn hawdd ei ddeall.



Rhaid i staff gofnodi os oes gennych anghenion dydyn nhw ddim yn gallu eu hateb. Fe ddylai hyn gael ei ddefnyddio i wella gwasanaethau yn y dyfodol.



Os oes gennych chi anghenion y mae'r awdurdod lleol yn gyfrifol amdany'n nhw, rhaid iddyn nhw ysgrifennu cynllun gofal a chefnogaeth i chi.

Rhaid i gynlluniau gofal a chefnogi ddweud:



- beth rydych chi eisiau ei gyflawni drwy eich cynllun gofal a chefnogi



- beth mae'n rhaid i'r awdurdod lleol ei wneud i'ch helpu i gyflawni beth rydych chi eisiau



- beth ydy eich anghenion



- sut byddwn ni'n dal i edrych i weld os ydy eich cynllun yn gweithio i chi



- y dyddiad pan fyddwn ni'n edrych nesaf ar eich cynllun.



Os ydy eich sefyllfa neu eich anghenion yn newid rhaid edrych ar eich cynllun a'i newid os oes angen. Fe ddylai unrhyw newidiadau yn eich bywyd gael eu cynllunio yn ofalus.



Cyn cau eich cynllun rhaid inni edrych i weld sut mae wedi gweithio i chi.



Efallai y byddwch chi'n gallu defnyddio **taliadau uniongyrchol** i drefnu eich gofal a'ch cefnogaeth.

Taliad uniongyrchol ydy arian rydych chi'n gallu ei gael yn lle gwasanaeth. Rydych chi'n gallu ei ddefnyddio i brynu eich cefnogaeth a'ch gwasanaethau eich hun.



Rhaid i'ch awdurdod lleol roi gwybodaeth i chi am **daliadau uniongyrchol** i'ch helpu chi i benderfynu os ydych chi eisiau eu defnyddio nhw.



Rhaid i awdurdodau lleol eich cefnogi chi i ddefnyddio **taliadau uniongyrchol** os mai dyna rydych chi eisiau, Rhaid iddyn nhw hefyd edrych i weld sut maen nhw'n cael eu defnyddio.

Pontio



Os oes newidiadau yn digwydd yn eich bywyd, fe ddylech chi gael cefnogaeth i reoli'r newidiadau yma. A chael **asesiad** arall o'ch anghenion.



Mae pobl awtistig hefyd yn gallu gofyn am adolygiad pan mae newidiadau yn digwydd. Mae newidiadau yn gallu meddwl gadael ysgol i addysg bellach neu wasanaethau eraill.



Rhaid i blant ac oedolion ifanc awtistig sydd yn mynd drwy newidiadau bywyd allu cael cefnogaeth sydd yn agos at lle maen nhw'n byw.



Rhaid i'r gefnogaethy gael ei ddarparu gan y gwasanaeth sydd yn fwyaf addas i'w anghenion. Ac fe ddylai gael ei roi hyd nes y bydd bywyd wedi setlo unwaith eto.



Dylid rhoi cefnogaethy mor gynnar â phosibl. Mae angen i wasanaethau ganolbwyntio ar roi cefnogaeth yn gynnar. Fe fydd hyn yn helpu plant awtistig i allu dod yn oedolion yn y ffordd maen nhw yn ei ddewis.

Asesiadau gofalwyr



Mae'n bwysig iawn bod y bobl sydd yn gwneud **asesiadau** gofal cymdeithasol yn deall anghenion pobl awtistig. Fe fydd hyn yn eu galluogi i roi'r cyngor a'r cymorth gorau i rieni a gofalwyr.

Gofal iechyd



Rhaid i holl wasanaethau iechyd a staff feddwl am anghenion pobl awtistig a gwneud **addasiadau rhesymol**.

Addasiadau rhesymol ydy newidiadau rydyn ni'n gallu eu gwneud i wneud yn siŵr bod pawb yn gallu defnyddio gwasanaethau. Er enghraifft rhoi amser ychwanegol ar gyfer apwyntiadau. Neu roi gwybodaeth sydd yn hawdd ei ddeall.

Cefnogaeth i bobl yn y carchar



Rhaid i fyrddau iechyd lleol, awdurdodau lleol a gwasanaethau carchar weithio gyda'i gilydd i:

- gefnogi pobl awtistig a gwneud **addasiadau rhesymol**.
- rhoi hyfforddiant i staff ar awtistiaeth.



Gwasanaethau cefnogi eraill



Mae gan bobl awtistig yr hawl i wasanaethau ieuchyd eraill os oes angen. Er enghraifft gwasanaethau ieuchyd meddwl ac addysg.



Rhaid i bob gwasanaeth wneud **addasiadau rhesymol** i bobl awtistig. Os yn bosibl, fe ddylai staff sydd â phrofiad o awtistiaeth gymryd rhan yn eu gofal a'u cefnogaeth.



Fe ddylai staff gael hyfforddiant ar awtistiaeth os ydyn nhw'n debygol o weithio gyda phobl awtistig.




Rhaid i ysgolion gael gwasanaethau cefnogi i blant awtistig.



Rhaid i oedolion awtistig gydag anghenion gofal cymdeithasol gael cefnogaeth sydd yn ateb eu hanghenion.

Dyletswyddau ar gyfer gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol

Rhaid i awdurdodau lleol:



- Wneud yn siŵr bod pobl yn gallu cael gwybodaeth am wasanaethau awtistiaeth yn eu hardal.
- Gwneud yn siŵr nad ydy **IQ** person yn cael ei ddefnyddio i benderfynu os ydy rhywun yn cael **asesiad anghenion**.
- Gwneud yn siŵr bod staff sydd yn cymryd rhan mewn **asesiadau** gofal cymdeithasol yn deall sut y mae awtistiaeth yn gallu effeithio ar fywyd person.

Rhaid i fyrddau iechyd lleol ac Ymddiriedolaethau GIG:



- Wneud yn siŵr bod staff iechyd fel meddygon teulu yn gwybod am wasanaethau awtistiaeth yn eu hardal. A sut mae pobl yn gallu cael y gwasanaethau yma.



- Gwneud yn siŵr bod staff yn cael hyfforddiant mewn awtistiaeth, ymddygiad ac anghenion.

- Gwneud yn siŵr nad ydy **IQ** person yn cael ei ddefnyddio i benderfynu os ydy rhywun yn cael **asesiad anghenion**.



- Gwneud yn siŵr bod pobl awtistig sydd â chyflyrau eraill hefyd yn parhau i allu defnyddio **Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant neu Oedolion (CAMHS)**. Rhaid i **CAMHS** feddwl am sut y mae awtistiaeth yn gallu effeithio ar unigolyn pan yn cynllunio gofal a chymorth.

Rhaid i fyrddau iechyd lleol, ymddiriedolaethau GIG ac awdurdodau lleol weithio gyda'i gilydd i:



- Wneud yn siŵr bod pobl awtistig a'u gofalwyr yn gwybod bod ganddyn nhw hawl i gael **asesiad anghenion**. Fe ddylai hyn gael ei gynnig pan maen nhw wedi cael **diagnosis** o awtistiaeth.



- Gwneud yn siŵr nad ydy cefnogaeth a gwasanaethau eraill yn cael eu gwrthod i bobl tra maen nhw'n disgwyl am eu **diagnosis**.

- Helpu gwasanaethau i ddarganfod ffyrdd newydd o weithio.



- Gwneud yn siŵr bod gwasanaethau yn gwneud **addasiadau rhesymol** i bobl awtistig. Er mwyn iddyn nhw gael gwasanaethau yn yr un ffordd â phawb arall.

- Gwneud yn siŵr bod pobl awtistig mewn lleoedd fel y carchar yn cael gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol gan staff sydd wedi cael hyfforddiant awtistiaeth.



- Gwneud yn siŵr bod gwasanaethau arbenigol ar gael pan fo angen.

3. Codi ymwybyddiaeth a hyfforddiant

Mae'r adran yma am:



- gwneud yn siŵr bod pawb yn deall awtistiaeth a sut mae hynny yn effeithio ar fywyd rhywun



- gwneud yn siŵr bod staff sydd yn gweithio mewn gwasanaethau yn gallu cael a defnyddio gwybodaeth a sgiliau i ddarparu gwasanaethau a chymorth i bobl awtistig, eu teuluoedd a'u gofalwyr.

Deddf Cydraddoldeb 2010



Mae'r ddeddf yma yn dweud bod gan wasanaethau ddyletswydd yn ôl y gyfraith i wneud **addasiadau rhesymol** i bobl awtistig.



Mae angen i wasanaethau feddwl am ba fath o **addasiadau rhesymol** maen nhw'n gallu eu gwneud cyn bod eu hangen.



Rhaid i awdurdodau lleol a byrddau iechyd wneud yn siŵr bod hyfforddiant awtistiaeth yn cynnwys gwneud **addasiadau rhesymol**.



Rhaid i wasanaethau wneud yn siŵr eu bod nhw'n rhoi gwybodaeth mewn ffordd mae pobl yn ei deall. Rhaid iddyn nhw ddarparu **eiriolydd** arbennig neu ddehonglydd i helpu gyda hyn os oes angen.

Helpu cymunedau i ddeall awtistiaeth




Mae angen inni wneud yn siŵr bod pobl awtistig yn cael eu cynnwys yn eu cymunedau. I helpu gyda hyn mae angen i bobl yn y gymuned ddeall awtistiaeth.



Rhaid i awdurdodau lleol a darparwyr eraill wneud yn siŵr eu bod nhw'n ateb anghenion pobl awtistig. Maen nhw'n gallu gwneud hyn drwy bethau fel:



- Cefnogi pobl awtistig a'u teuluoedd a gofalwyr i gymryd rhan mewn gweithgareddau.



- Rhoi gwybodaeth am awtistiaeth, hawliau, hyfforddiant a beth sydd yn digwydd yn yr ardal.

Hyfforddiant i staff iechyd a gofal cymdeithasol



Fe ddylai'r holl staff ddeall sut i wneud newidiadau i'r ffordd maen nhw'n gweithio i wella gwasanaethau a chefnogaeth i bobl awtistig.



Rhaid i awdurdodau lleol, byrddau iechyd lleol ac **ymdiriedolaethau GIG** wneud yn siŵr bod gan eu staff y sgiliau cywir i gefnogi pobl awtistig.



Fe ddylen nhw edrych i weld pa hyfforddiant mae eu staff ei angen. A threfnu hyfforddiant da, parhaus i ateb yr anghenion hynny.



Fe ddylai rhai staff iechyd a gofal cymdeithasol sydd yn gweithio'n uniongyrchol gyda phobl awtistig gael lefel uwch o hyfforddiant.



Mae hyn yn meddwl pobl sydd yn gwneud **asesiadau**, yn gofalu am ac yn trin pobl awtistig, Er enghraifft:

- Deintyddion
- Athrawon
- Meddygon
- Ymladdwyr Tân
- Staff a gwirfoddolwyr mewn ysbytai
- Gweithwyr cymdeithasol



Rhaid i fyrddau iechyd lleol ac **ymddiriedolaethau GIG** wneud yn siŵr nad ydy pobl awtistig yn cael eu stopio rhag cael gwasanaethau neu gefnogaeth oherwydd eu bod nhw'n awtistig.



Rhaid iddyn nhw wneud popeth maen nhw'n gallu i helpu pobl awtistig i ddeall eu triniaeth tra maen nhw yn yr ysbyty.



Rhaid diweddarau hyfforddiant yn aml.



Rhaid i awdurdodau lleol wneud yn siŵr bod staff gofal cymdeithasol yn y gymuned yn cael y lefel cywir o hyfforddiant mewn awtistiaeth.




Fe ddylai ysgolion a cholegau gael person arbennig gyda'r lefel gywir o hyfforddiant i ateb anghenion pobl awtistig.

Dyletswyddau ar gyfer codi ymwybyddiaeth a hyfforddiant

Rhaid i awdurdodau lleol:



- Wneud yn siŵr bod gan y staff sydd yn gwneud **asesiadau anghenion** y sgiliau cywir i wneud hynny. Os na, rhaid iddyn nhw gael cyngor gan rywun sydd â'r sgiliau cywir.



- Gwneud yn siŵr bod y **Gwasanaethau Gwybodaeth, Cymorth a Chyngor** y mae awdurdodau lleol yn eu darparu yn rhoi gwybodaeth am wasanaethau awtistiaeth yn eu hardal. Mae hwn yn wasanaeth i bawb. Mae'n rhoi prif bwynt cyswllt i bobl os ydyn nhw angen help i gael gwasanaethau gofal a chymorth.



- Gwneud yn siŵr bod gan weithwyr cymdeithasol y cymwysterau cywir i wneud eu gwaith.



- Gwneud yn siŵr bod gan yr holl staff yr hyfforddiant a'r sgiliau cywir.

Rhaid i fyrddau iechyd ac ymddiriedolaethau GIG:



- Gwneud yn siŵr bod gan staff gofal iechyd yr hyfforddiant a'r wybodaeth maen nhw eu hangen i wneud eu gwaith.



- Gwneud yn siŵr bod gan bawb sydd yn gwneud **asesiadau** y sgiliau a'r wybodaeth maen nhw eu hangen.



- Gwneud yn siŵr bod staff iechyd fel meddygon teulu yn gwybod am wasanaethau awtistiaeth yn eu hardal. A sut mae pobl yn gallu cael y gwasanaethau yma.


Rhaid i fyrddau iechyd lleol, ymddiriedolaethau GIG ac awdurdodau lleol weithio gyda'i gilydd i:



- Gynnwys hyfforddiant ar awtistiaeth mewn hyfforddiant cydraddoldeb ac amrywiaeth i'r holl staff iechyd a gofal cymdeithasol.



- Edrych i weld pa hyfforddiant awtistiaeth mae staff iechyd a gofal cymdeithasol ei angen ar gyfer eu gwahanol swyddi.



- Gwneud yn siŵr bod staff yn gwybod am y **Gwasanaeth Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth**. Mae hwn yn wasanaeth i bawb. Mae'n rhoi prif bwynt cyswllt i bobl os ydyn nhw angen help i gael gwasanaethau cyngor a chymorth.



- Gwneud yn siŵr bod pobl awtistig, rhieni a gofalwyr yn cael eu cynnwys mewn hyfforddiant awtistiaeth. Maen nhw'n gallu helpu i gynllunio neu i roi'r hyfforddiant.

4. Cynllunio a gwirio gwasanaethau a chynnwys pobl

Mae'r adran yma am:



- sut mae awdurdodau lleol a byrddau iechyd yn cynllunio ac yn rhedeg gwasanaethau i ateb anghenion y bobl yn eu hardaloedd



- sut mae'n rhaid i **Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol** wneud yn siŵr bod awdurdodau lleol, byrddau iechyd lleol a phartneriaid eraill yn gweithio gyda'i gilydd i ddelio gyda'r **asesiadau anghenion poblogaeth**. A darparu'r cynlluniau ardal.



Mae **Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol** yn cynnwys staff o awdurdodau lleol, byrddau iechyd lleol, partneriaid a phobl eraill. Maen nhw'n gweithio gyda'i gilydd i wneud yn siŵr bod gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol yn eu hardaloedd yn cael eu cynllunio'n dda.

Mae **Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014** yn dweud bod rhaid i awdurdodau lleol a byrddau iechyd lleol weithio gyda'i gilydd i wneud **asesiad anghenion poblogaeth**.

Maen nhw'n casglu gwybodaeth i ddarganfod beth ydy anghenion gofal a chymorth y bobl sydd yn byw yn eu hardal.

Asesiad anghenion poblogaeth



Rhaid i awdurdodau lleol a byrddau iechyd lleol weithio gyda'i gilydd i wneud **asesiad anghenion poblogaeth**. Fe fyddan nhw'n gwneud hyn bob 5 mlynedd i weld:

- Sut mae anghenion pobl ddim yn cael eu hateb.
- Pa wasanaethau sydd eu hangen i ateb anghenion pobl yn eu hardaloedd.
- Pa wasanaethau sydd eu hangen i stopio problemau rhag digwydd. Neu eu stopio rhag mynd yn waeth.
- Sut mae gwasanaethau'n gallu cael eu rhoi yn Gymraeg.



Rhaid i'r **asesiad anghenion poblogaeth** fod yn benodol i awtistaeth.



Rhaid iddyn nhw ysgrifennu adroddiad am beth maen nhw wedi ei ddysgu o'r **asesiad anghenion poblogaeth**. Fe ddylai pawb sydd yn byw yn yr ardal gael llais mewn casglu gwybodaeth ar gyfer yr adroddiad. Rhaid ysgrifennu adroddiadau bob 5 mlynedd.

Cynlluniau ardal



Fe ddylai **Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol** wneud yn siŵr bod awdurdodau lleol a byrddau iechyd lleol yn gweithio gyda'i gilydd i ysgrifennu cynllun ardal.



Mae'r cynllun ardal yn dweud sut byddan nhw'n ateb anghenion pobl yn eu hardal.



Fe fydd y **Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol** yn edrych ar y cynllun ardal bob blwyddyn, Mae hyn yn meddwl edrych ar wasanaethau awtistiaeth hefyd.



Fe fyddan nhw'n edrych i weld os ydy eu gwasanaethau awtistiaeth yn dilyn cynllun Llywodraeth Cymru ar gyfer awtistiaeth.

Casglu gwybodaeth a gwirio gwasanaethau



Fe fydd awdurdodau lleol a byrddau iechyd yn casglu gwybodaeth am bobl awtistig a gwasanaethau yn eu hardaloedd.



Fe fydd hyn yn helpu i gynllunio gwasanaethau. Mae'r wybodaeth yma yn cael ei gadw yn ddiogel ac yn breifat.



Fe ddylai pob **Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol** ddewis 1 person i ofalu am gasglu gwybodaeth. A gweld bod y gwasanaethau awtistiaeth sydd wedi eu rhoi yn y cynlluniau ardal yn cael eu darparu.



Fe ddylen nhw hefyd wneud yn siŵr bod pobl awtistig a'u teuluoedd/gofalwyr yn cymryd rhan yn llawn yn sut mae gwasanaethau yn cael eu cynllunio, eu rhedeg a'u gwirio.



A gwneud yn siŵr bod unrhyw newidiadau yn y ffrordd mae **asesiadau** awtistiaeth yn cael eu gwneud yn cael eu hegluro yn glir i staff.



Fe fydd awdurdodau lleol a byrddau iechyd yn ysgrifennu adroddiad i Lywodraeth Cymru bob blwyddyn am y cynllun ardal.



Fe fydd Llywodraeth Cymru yn edrych i weld bod gwasanaethau awtistiaeth yn dilyn y rheolau a'r deddfau.



Rhaid i bob ardal gael hyrwyddwr awtistiaeth. Fe fydd y person yma yn mynd i gyfarfodydd y **Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol** a gwneud yn siŵr bod gwasanaethau awtistiaeth yn cael eu gwirio'n gywir.



Fe fyddan nhw hefyd yn gwneud yn siŵr bod gan bobl awtistig a'u teuluoedd/gofalwyr lais mewn gwasanaethau awtistiaeth.

Dyletswyddau ar gyfer cynllunio a gwirio gwasanaethau a chynnwys pobl

Rhaid i awdurdodau lleol a byrddau iechyd lleol weithio gyda'i gilydd i:



- Dewis hyrwyddwr awtistiaeth. Gwneud yn siŵr eu bod nhw'n cymryd rhan yn y **Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol**.



- Dilyn eu dyletswyddau yn y **Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru)**. A gwneud yn siŵr eu bod nhw'n meddwl am anghenion pobl awtistig yn eu cynlluniau ardal.



- Gwneud yn siŵr bod pobl awtistig a'u teuluoedd a'u gofalwyr yn cael llais yn y ffordd mae gwasanaethau awtistiaeth yn cael eu cynllunio a'u rhedeg.

Rhaid i fyrddau iechyd lleol, ymddiriedolaethau GIG ac awdurdodau lleol:



- Gwneud yn siŵr eu bod nhw'n dilyn rheolau Llywodraeth Cymru ar gyfer casglu gwybodaeth a gwirio gwasanaethau.

Geiriau anodd

Addasiadau rhesymol

Addasiadau rhesymol ydy newidiadau rydyn ni'n gallu eu gwneud i wneud yn siŵr bod pawb yn gallu defnyddio gwasanaethau. Er enghraifft rhoi amser ychwanegol ar gyfer apwyntiadau. Neu roi gwybodaeth sydd yn hawdd ei deall.

Asesiad

Asesiad ydy set o gwestiynau a phroffion sydd yn gallu cael eu gwneud i weld os ydy person efallai yn awtistig, neu i weld os ydyn nhw angen gofal a chymorth.

Asesiad anghenion

Asesiad anghenion ydy pan mae staff iechyd a gofal cymdeithasol yn darganfod beth ydy eich anghenion a sut maen nhw'n gallu eich cefnogi.

Asesiad gofalwr

Asesiad gofalwr ydy pan mae staff iechyd a gofal cymdeithasol yn edrych i weld beth ydy eich anghenion gofalu a sut maen nhw'n gallu eu cefnogi.

Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol

Mae Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol yn cynnwys staff o awdurdodau lleol, byrddau iechyd lleol, partneriaid a phobl eraill. Maen nhw'n gweithio gyda'i gilydd i wneud yn siŵr bod gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol yn eu hardaloedd yn cael eu cynllunio'n dda.

Cod Ymarfer

Mae Cod Ymarfer yn rhoi rheolau a chyngor am y ffyrdd gorau o weithio. Mae'n dweud sut i ddilyn deddfau a rheolau. Fe fyddwn ni yn ei alw yn Cod yn fyr.

Cymhwysra

Cymhwysra ydy pan mae rhestr o bethau mae angen i chi eu cael i allu cael cefnogaeth. Rydych chi'n gymwys i gael cefnogaeth os oes gennych chi rywbeth sydd ar y rhestr.

Diagnosis

Diagnosis ydy pan mae gweithiwr ieched proffesiynol yn edrych ar ieched ac ymddygiad person i benderfynu os oes ganddyn nhw gyflwr neu beidio.

Eiriolydd

Eiriolydd ydy rhywun sydd yn gallu eich helpu chi i siarad i fyny dros eich hun a gwneud yn siŵr bod eich barn yn cael ei glywed.

IQ

Sgôr ydy IQ sydd yn dweud pa mor ddeallus neu glyfar ydy rhywun.

Taliad uniongyrchol

Taliad uniongyrchol ydy arian rydych chi'n gallu ei gael yn lle gwasanaeth. Rydych chi'n gallu ei ddefnyddio i brynu eich cefnogaeth a'ch gwasanaethau eich hun.

Ymddiriedolaethau GIG

Cyrff ydy Ymddiriedolaethau GIG fel Gwasanaeth Ambiwylans Cymru ac Iechyd Cyhoeddus Cymru.

